

TAI WALES & WEST

DATGANIAD ATAL CAETHWASIAETH A MASNACHU POBL

AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 RHAGFYR 2018

Mae Tai Wales & West wedi ymrwymo i ddarparu datganiad llawn fel sy'n ofynnol dan ddarpariaethau tryloywder Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae Tai Wales & West (WWH) yn ddarparwr tai dielw ar gyfer dros 20,000 o bobl ac mae'n cyflogi dros 400 o bobl. Fel Cwmni Cydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol cofrestredig, rydym yn berchen ar ac yn rheoli dros 11,500 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel yn ardal 15 awdurdod lleol ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dros 3,000 eiddo pwrpasol ar gyfer pobl hŷn a datrysiadau tai â chymorth arloesol ar gyfer pobl sydd ag amrediad o anghenion penodol. Ein gweledigaeth yw sicrhau twf cadarn a chynaliadwy er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl. Y trosiant yn ystod 2018 oedd £65m.

Mae WWH yn gweithredu yng Nghymru yn unig, a phan fo modd, mae'n caffael o Gymru. Mae'n bwysig i ni ein bod yn ystyried gweithgarwch cynhyrchu lleol a moesegol yn ôl y ffordd y byddwn yn "prynu'n iawn". Mae ymrwymiad ein prif gontractwyr datblygu a'n cyflenwyr a'n contractwyr gwasanaethau eiddo i'n Siarter Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol yn cynorthwyo ein fframwaith Gwneud Gwahaniaeth parhaus.

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i dalu Cyflog Byw Sefydliad Joseph Rowntree. Rydym yn adolygu ein holl amodau cyflogaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae prif gontractwyr yn dangos eu cynnydd tuag at fod yn gyflogwr sy'n talu'r cyflog byw trwy lofnodi ein Siarter Tâl Teg. Mae WWH yn darparu hyfforddiant e-ddysgu wedi'i seilio ar rolau er mwyn sicrhau bod staff perthnasol yn deall risgiau posibl Caethwasiaeth Fodern wrth ddarparu ein gwasanaethau a rheoli ein cadwyn gyflenwi. Mae canllawiau'r Llywodraeth er mwyn nodi a chynorthwyo dioddefwyr ar gael ac yn hygyrch i'r holl gyflogeion trwy'r fewnwyd.

Yn ddiweddar, ymrwymodd WWH i God Ymarfer (COP) Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi, ac mae wedi cymeradwyo polisi Cyflogaeth Foesebol. Byddwn yn defnyddio modiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru ynghylch y COP er mwyn cynorthwyo ac addysgu staff perthnasol i ddelio â materion sy'n ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern a Hawliau Dynol. Er mwyn cydymffurfio â'r COP, mae mecanwaith chwythu'r chwiban er mwyn adrodd am bryderon gan bartïon allanol wedi cael ei gynnwys ar wefan WWH.

Mae'n datganiad atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithredu mewn ffordd foesebol a gydag uniondeb yn ein holl berthnasodded busnes, gan weithredu a gorfodi systemau a threfniadau rheoli sy'n ceisio sicrhau nad yw caethwasiaeth

a masnachu pobl yn digwydd unrhyw le yn ein cadwyni cyflenwi. Nid yw WWH yn dymuno cefnogi na delio ag unrhyw fusnes y mae'n hysbys ei fod yn ymwneud â chaethwasiaeth neu fasnachu pobl mewn unrhyw ran o'i weithrediadau. Dim ond gyda'r rhai sy'n cydymffurfio'n llawn â'r datganiad hwn neu'r rhai sy'n dangos eu bod yn cymryd camau tuag at sicrhau cydymffurfiaeth y byddwn yn masnachu gyda nhw.

Er mwyn nodi a lleihau'r risg gymaint ag y bo modd, mae WWH wedi comisiynu a chynnig y prosiect i ddatblygu system Cymhwyso Cyflenwyr i rywun allanol. Fel rhan o'r broses, bydd gofyn i gontractwyr a chyflenwyr lenwi holiadur hunanasesu cyn cymhwyso, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, ynghyd â chanllawiau mewnol a dogfennaeth ategol er mwyn cynorthwyo'r broses fewnol. Ystyrir cwestiynau sy'n targedu risg caethwasiaeth a masnachu pobl, diogelu rhag llafur plant ac arferion cyflogaeth moesegol fel rhan o'r broses gaffael. Nid yn unig y bydd hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o ofynion y Ddeddf a COP, ond bydd yn pwysleisio'r pwys y mae WWH yn ei roi ar allu dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth hefyd.

Ni wnaethpwyd y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol na'r Rheolwyr Uwch yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern o fewn busnesau neu gadwyni cyflenwi y Grŵp ac maent o'r farn y dylai'r polisiâu canlynol, y cynlluniwyd pob un ohonynt i gynorthwyo cydymffurfiaeth gyfreithiol ac arfer gorau, fod yn ddigonol er mwyn atal neu alluogi i faterion a allai beri pryder gael eu hadnabod yn gynnar:

- Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol
- Cod Ymddygiad Cyflogeion
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi a Gweithdrefn Gwrth-dwyll
- Rheoliadau Ariannol
- Diogelu Oedolion a Phlant Agored i Niwed
- Polisi Cyflogaeth Foesegol

Gwneir y datganiad hwn dan Adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n cynnwys datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018. Mae trosiant y Grŵp yn fwy na £36m ar gyfer y cyfnod hwnnw. Cymeradwywyd y datganiad hwn gan Fwrdd Tai Wales & West a fydd yn ei adolygu ac yn ei ddiweddarau bob blwyddyn.

Llofnodwyd



Sharon Lee

Cadeirydd

Tai Wales & West

Dyddiad: 13/06/2019

Llofnodwyd



Anne Hinchey

Prif Weithredwr y Grŵp

Tai Wales & West